Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

6 Ionawr 2025

Annwyl Mr Griffiths

**Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2024 yn gofyn am fy sylwadau ar y gydnabyddiaeth ariannol arfaethedig a'r telerau penodi ar gyfer Aelod Anweithredol newydd o Swyddfa Archwilio Cymru.

Nodaf fod y Pwyllgor yn dymuno parhau â'r gyfradd bresennol o £12,500 y flwyddyn ar ymrwymiad a awgrymir o 2-3 diwrnod y mis. Ar y sail hon, byddwn yn fodlon â'r cynnig.

Nid yw cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, at ddibenion cymharu, mae gan y cynllun bum cyfradd ddyddiol ar gyfer tâl cydnabyddiaeth (bandiau), sy'n helpu i wahaniaethu taliadau ar sail asesiad o ba mor fawr, cymhleth ac agored i risg yw'r sefydliad. Mae cyfraddau dyddiol Aelodau'r Bwrdd o dan y cynllun cydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £92 i £366. Mewn cyd-destun, mae cyflog yr Aelod Anweithredol o £12,500 yn cyfateb i tua £347 i £520 y dydd.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w rhannu o ran y telerau a'r amodau.

**DOM HOULIHAN**
**Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ